## ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

## LEGISLATION COMMITTEE REPORT

# Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004

Diben y Rheoliadau hyn yw diwygio'r rhestr o swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdodau lleol, rhai a all fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth, a'r rheini nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod yn unig. Mae'r rhestrau hynny'n ymddangos yn yr Atodlenni i'r Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 (Rheoliadau 2001).

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.7 (iv).

Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn rhestru'r diwygiadau i Atodlen 1, Rheoliadau 2001. Mae'n ymdrin â mewnosod eitem 18 newydd sy'n ymwneud â darpariaethau o dan y Ddeddf Cerbydau (Troseddau) 2001. Fodd bynnag, yn wahanol i'r darpariaethau eraill sydd wedi'u nodi i'w mewnosod i Atodlenni'r prif Reoliadau, nid yw'r rhai a nodwyd o dan y Ddeddf hon yn cyfeirio at swyddogaethau awdurdodau lleol.

Er enghraifft, mae adran 2(3) wedi'i nodi, ond mae honno'n ymdrin â'r pwer i bennu'r manylion i'w cynnwys yng nghofrestr gweithredwyr achub cerbydau modur. Ar y llaw arall nodwyd y ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol i sefydlu cofrestr a chadw'r gofrestr sydd wedi'i chynnwys yn adran 2(1).

Yn yr un modd, mae adran 3(1) wedi'i nodi, sy'n ymdrin â gwneud cais am gofrestru, ond ni nodwyd yr is-adrannau dilynol sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud gyda'r ceisiadau.

Mae Adrannau 7 a 41 hefyd wedi'u nodi'n rhannol. Maent yn ymdrin â gwneud rheoliadau yn hytrach na chyfrifoldebau awdurdodau lleol.

Credir bod cynnwys rhifau adrannau anghywir yn fân wall drafftio a theipograffyddol sy'n briodol i'w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau ar yr amod na chaiff y swyddogaethau a nodwyd yn y golofn arall ('pwerau mewn perthynas â chofrestru gweithredwyr achub cerbydau modur') eu newid.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 16 Tachwedd 2004